# Beth sy'n newid?

**O ddydd Llun 3 Mehefin 2024:**

1. bydd angen ichi **sortio eich eitemau ailgylchadwy 'sych' i finiau ar wahân**. Rydym yn gosod y canlynol yn eich man storio biniau:
    - **bin du gyda sticer coch** ar gyfer eich:
        - **caniau, tuniau, erosolau a ffoil metel**,
        - **poteli, potiau a thybiau plastig**, a
        - **cartonau bwyd a diod** fel Tetra Pak,
    - **bin du gyda sticer gwyrddlas** ar gyfer eich **poteli a jariau gwydr**,
    - **bin du gyda sticer glas** ar gyfer eich **cardfwrdd,** a
    - **bin du gyda sticer glas tywyll** ar gyfer eich **papur**.

    Byddwn yn rhoi'r gorau i gasglu eich ailgylchu 'sych' o'r bin glas unigol a ddefnyddiwch ar hyn o bryd. Byddwn yn mynd â'r bin hwn ymaith pan fyddwn yn gosod y biniau newydd.

2. byddwn yn **casglu cynnwys y biniau cymunedol newydd ar gyfer eich ailgylchu 'sych' bob wythnos**.

3. rydym yn cyflwyno casgliadau newydd ar gyfer eich **eitemau trydanol bach** (tudalen 11), **batris o'r cartref** (tudalen 11), a **thecstilau** (tudalen 12).

4. byddwn yn **casglu eich gwastraff na ellir ei ailgylchu bob pedair wythnos** o'r **bin du arferol gyda chaead du**. Ar gyfartaledd, gallwch roi swm sy'n cyfateb i **hyd at bedair sach ddu untro lawn yn y bin bob pedair wythnos**.

5. **efallai bydd eich diwrnod casglu'n newid**. I wirio eich dyddiadau casglu newydd, ewch i'n gwefan neu cysylltwch â ni o ddydd Mercher 15 Mai 2024 ymlaen.



